GWEITHREDU'N DDOETH MEWN BYD DI-SYNNWYR

Nodyn i'r siaradwr:
Ceisiwch gael gan eich cynulleidfa sylweddoli mor werthfawr ydi caffael doethineb ddwyfol ac mor bwysig yw rhoddi doethineb dduwiol ar waith yn ein bywydau. Pwysleisiwch y bendithion sy'n deillio o gadw doethineb ddwyfol yn ddiogel

RYDYM YN BYW MEWN BYD DI-SYNNWYR (5 mun.)

Mae'r byd yn ymhyfrydu yn ei wybodaeth fawr, ei gynnydd materol, a'i dechnoleg soffistigedig

Ond yn ysbrydol a moesol mae'r byd yn suddo fwyfwy i gors annuwioldeb (2Tim 3:1, 13)

Er yn honni bod yn oleuedig, di-synnwyr ydi llawer o'i weithredu

Mae'n siarad am heddwch, ond yr un pryd yn stocio arfau angeuol (*g*04 3/8 3-9)

Mae brawychiaeth yn taflu'i chysgod dros fywydau miliynau (*g* 6/06 3-6)

Mae afiechydon a drosglwyddir yn rhywiol yn ymledu ac mae nifer y merched sy'n feichiog yn eu harddegau yn cynyddu'n sylweddol (*g*05 12/22 11; *g*05 8/8 29; *g*04 10/8 4-7, 28; *g*04 5/22 11-12)

Gwelir camddefnyddio cyffuriau yn cynyddu'n aruthrol (Eff 4:17-19; *g*03 4/8 3; *g*99 11/8 3-7; *g*99 7/8 6-7)

Mae'r eglwysi'n cefnogi carfanau yn amser rhyfel, mae'r clerigwyr yn gysylltiedig â hil-laddiad, mae offeiriaid yn manteisio'n rhywiol ar bobl ifanc a'r eglwys yn cadw'n dawel ynglŷn â hyn (*kp* 3)

Wrth geisio pethau materol daw "chwantau direswm a niweidiol" yn eu sgil (1Tim 6:9)

Caiff gwerthoedd eu gwyrdroi (*g*03 6/8 3-9)

Sut mae gweithredu'n ddoeth mewn amgylchfyd mor ddi-synnwyr?

RHAID EIN CYFEIRIO AT FFYNHONNELL GWIR DDOETHINEB (10 mun.)

Jehofah ydi Ffynhonnell gwir ddoethineb (Diar 2:6)

Mae e'n ystyried doethineb a rhesymu'r byd sy'n groes i'w gyngor ef, yn ffolineb ac yn oferedd (1Cor 3: 19, 20)

Cawn fudd a lles mawr gan ddoethineb Duw wrth ddarllen y Beibl bob dydd, myfyrio arno, a rhoi ei gyngor ar waith yn ein bywydau (Jos 1:7, 8; Salm 1:1, 2)

Gall Gair Duw ein gwneud yn ddoeth a'n dwyn i iachawdwriaeth a'n darparu'n gyflawn ar gyfer pob math o weithredoedd da (2Tim 3:15-17)

Mae'n ein harwain yn y ffordd y dylem ei rhodio (Eseia 30:21; *w*03 2/15 31)

Penderfyniad doeth fyddai addasu'n bywyd yn unol ag ewyllys a ffyrdd Duw (Eseia 48:17, 18)

Fe gaiff y sawl sy'n dilyn safonau Jehofah y daioni mwyaf o'u cadw

Rhodd gan Jehofah ydi doethineb ddwyfol ac fe ddylid ei thrysori (Diar 3:21)

Wrth ymarfer doethineb duwiol cawn well bywyd nawr a "sylfaen sicr ar gyfer y dyfodol, i feddiannu'r bywyd sydd yn fywyd yn wir" (1Tim 6:19)

GWEITHREDU'N DDOETH YW RHOI CYNGOR DUW AR WAITH (20 mun.)

Os ydym am dderbyn doethineb Jehofah, rhaid deall yr hyn rydym yn ei ddarllen a'i roi ar waith (Diar 2:2-5; Iago 1:22-25)

Dylem wrando ar y cyngor i ymgadw ar wahân i'r byd a pheidio â'n llygru'n hunain (Iago 1:27)

Cadw'n niwtral yn holl faterion y byd (Ioan 17:14)

Ymgadw rhag gwneud pethau drwg; dilyn heddwch (Rhuf 12:9, 18; 1Pedr 3:11)

Peidio â rhoi lle i gasineb, trachwant, bryntni na siarad gwamal yn ein bywydau (Diar 10:12; 1Cor 6:9-11; Eff 5:3-5; 1Ioan 3:15)

Mae dilyn cyngor Duw yn ein hamddiffyn (Preg 7:12)

Mae'n ein galluogi ni i droi cefn ar y "gwag siarad bydol, a'r gwrthddywediadau a gamenwir yn wybodaeth" (1Tim 6:20, 21)

Cawn help i osgoi anfoesoldeb a gwaradwydd a chawn ein hamddiffyn rhag afiechydon a drosglwyddir yn rhywiol, beichiogi anghyfreithlon, a'r loes calon ddaw yn eu sgil (Diar 5:1-14)

Mae'n ein cadw ar wahân i ddadleuon politicaidd sy'n aml yn arwain at drais a niwed (Ioan 17:16; Iago 4:4; *w*02 11/1 14-19)

Cawn ein rhyddhau oddi wrth bryderon, a chaniatàu inni fyw bywyd duwiol, bodlon (Math 13:22; Titus 2:11-14; Heb 13:5)

Gallwn osgoi problemau, maglau, a'r drychineb fydd yn dod i ran y byd di-synnwyr hwn yn fuan (Diar 22:3)

Cawn ein helpu i osgoi bod yn ddilynwyr dynion, ac o ganlyniad osgoi trasiedi (Math 15:14; *w*04 1/15 3-7)

Bydd anwybyddu cyfarwyddyd a rhybuddion Jehofah yn arwain at drychineb (*w*03 1/1 8-11)

Dim ond o ddilyn cyfarwyddyd y Beibl y byddwn yn medru gweithredu'n ddoeth mewn byd di-synnwyr (Salm 32:8; *w*03 7/15 21-3)

MAE DWYS ANGEN INNI WEITHREDU'N DDOETH 'NAWR (10 mun.)

Mae diwedd byd di-reswm yn agosàu (1Cor 7:29; 1Pedr 4:7; *w*03 12/15 14-19; *w*00 1/15 12-14)

Y pryd hwnnw, tybed fydd Jehofah yn ein canfod yn ymddwyn yn ddoeth gyda sail gobaith goroesi i'w drefn newydd? (2Pedr 3:11-14)

Y peth doeth ydi gwneud safiad o blaid Jehofah, cefnogi ei benarglwyddiaeth, a chanfod noddfa yn ei enw (Diar 18:10; 27:11)

Rhown flaenoriaeth i fuddiannau'r Deyrnas (Math 6:33)

Chi'r rhai ifanc, dysgwch sgiliau fydd yn gallu cynnig cynhaliaeth i chi yn eich gwasanaeth cysegredig (*w*05 10/1 30-1)

Torrwch lawr ar fuddiannau busnes a diddordebau hamdden (1Tim 4:8; 2Tim 2:3, 4; *w*06 3/1 17-21; *w*06 2/1 6)

Parhewch i ymwrthod yn llwyr ag annuwioldeb ym mhob agwedd ar fywyd (1Pedr 4:3)

Cadwch draw oddi wrth chwaraeon treisiol, adloniant anfoesol, a goryfed

Osgowch nodweddion bydol megis cenfigen, ymgecru, brolio, a dweud celwydd (Iago 3:13-15)

Dilynwch heddwch bob amser (Heb 12:14)

Drwy ofni Jehofah a sicrhau ein gafael ar ddoethineb, cawn osgoi'r distryw a cholledigaeth a ddaw i ran byd ffôl a di-synnwyr (Diar 3:13-18; 4:7)

(Glynwch yn glòs wrth y defnydd a amlinellir, a chadw at yr amser a bennwyd i bob adran. Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnynt)

© 2006 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania Cedwir Pob Hawl